



Rhoi Pobl Ifanc ar y Blaen

Crynodeb o ganfyddiadau rhaglen
Our Bright Future. Ymchwil a wnaed gan ERS a
Collingwood Environmental Planning



'Mae pobl ifanc ar draws y prosiectau'n cael cyfle i gymryd rhan mewn llywodraethu rhaglenni'

Fforwm Ieuenctid

Drwy'r rôl hon, mae pobl ifanc yn cael cyfle i greu

- rhwydweithiau,
- rhannu syniadau,
- datblygu sgiliau.

Mae Fforwm Ieuenctid y rhaglen yn cynnwys cynrychiolwyr ifanc ar draws y prosiectau.

Gall aelodau'r Fforwm Ieuenctid fynychu digwyddiadau ar draws y rhaglen a chymryd rhan mewn cyfleoedd ymgychu a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â pholisi.



Newidiadau Sefydliadol

Mae llawer o brosiectau wedi sefydlu eu Fforymau neu eu Cyngorau Ieuenctid eu hunain, o ganlyniad uniongyrchol i'r rhaglen.

O blith y 31 o sefydliadau prosiect arweiniol, mae traean eisoes wedi newid eu strwythur llywodraethu neu eu harferion gweithio.

Mae pump o'r rhain yn cynnwys recriwtio ymddiriedolwyr ifanc.

"Mae Our Bright Future wedi arwain at newidiadau ar draws y consortiwm... o ran sut mae pobl ifanc yn rhan o benderfyniadau sefydliadol"

Grŵp Llywio

“Mae’n eithaf anarferol i rywun mor ifanc â ni gael yr holl bapurau yma a’u darllen nhw ac wedyn eu dadansoddi a meddwl am yr effaith fyddant yn ei chael. Dydw i ddim yn gallu meddwl am unrhyw beth arall yn fy mywyd i lle rydw i wedi cael yr un cyfle.”

Cyfweiliad gyda Chynrychiolydd Ifanc

Mae tri chynrychiolydd ifanc yn aelodau o Grŵp Llywio Our Bright Future gan gyfarfod bob chwarter i lywio'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen.

Panel Gwerthuso

Mae dau gynrychiolydd ifanc yn aelodau o'r Panel Gwerthuso gan gyfarfod bob chwarter gyda'r gwerthuswr dan gontract.

Mae'r cynrychiolwyr ifanc yn darparu adborth ar gyfer adroddiadau gwerthuso, gan wneud awgrymiadau ar y prosesau, y fformat a'r canfyddiadau parhaus, gyda safbwynt gwahanol o ran sut maen nhw'n berthnasol ac o fudd i gynulleidfa ifanc y rhaglen.



Cydweithio â Chyfoedion

Ceir enghreifftiau o bobl ifanc sydd wedi cymryd rhan mewn prosiect sy'n chwarae rhan weithredol yn y gwaith o recriwtio'r grŵp nesaf.

Canfuwyd bod y dull 'ieuenctid yn arwain ieuenctid' yn un cadarnhaol ar gyfer ymgysylltu, wrth rannu ymgyrch neu drosglwyddo gwybodaeth am dasg ymarferol. Mae hyn yn rhannol oherwydd clywed gan bobl ifanc o'r un anian a chael cyfle i weld y gwahaniaeth sy'n cael ei wneud.



Effaith Gadarnhaol

Yn ogystal â sgiliau newydd, mae'r prosiectau wedi ceisio datblygu agweddau mwy cadarnhaol tuag at bobl ifanc.

Mae'r agweddau a'r dulliau newydd hyn wedi gwella cyswllt pobl ifanc a chymunedau ehangach, gan weithio'n fwyaf penodol tuag at herio'r 'norm cymdeithasol o farn negyddol am bobl ifanc'.



© Mark Alexander for Fok and Centre for New Media

Dan Arweiniad Ieuenctid

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod galluogi pobl ifanc i gynllunio a gweithredu ymgyrchoedd yn rhoi mwy o ymdeimlad o berchnogaeth a chyswllt iddynt.

Mae hyn yn ei dro yn arwain at ganlyniadau mwy cadarnhaol, er enghraifft, ymgyrchoedd mwy cymunedol eu ffocws a mwy o gynaliadwyedd a hirhoedled i fentrau.

“Mae rhoi llais i bobl ifanc wedi eu helpu i sylweddoli eu bod yn haeddu cael eu clywed. Mae’n ymddangos bod sgiliau, gwybodaeth a hyder yn gyfraniad pwysig at rymuso, sy’n ofynnol er mwyn i bobl ifanc gymryd camau pellach, ysgwyddo cyfrifoldeb a datblygu eu prosiectau eu hunain.”

“Yn draddodiadol, nid yw elusennau cadwraeth mor amrywiol â hynny ac mae’n caniatáu i ni fod ychydig yn fwy adlewyrchol; er enghraifft, mae ein bwrdd ymddiriedolwyr ni wedi gwahodd dau gynrychiolydd o’r prosiect i’r bwrdd i fynegi barn pobl ifanc.”

Rheolwr Prosiect


“Mae cynnwys pobl ifanc ar lefel strategol yn y rhaglen wedi bod yn hynod fuddiol i’r rhaglen yn ôl rhanddeiliaid, oherwydd mae’n darparu persbectif ieuencid hanfodol. Yn gyffredinol, mae’r cynrychiolwyr ieuencid yn feimlo’n gyfforddus yn cyfrannu at gyfarfodydd y Grŵp Llywio a’r Panel Gwerthuso, yn enwedig os gallant roi cyngor a syniadau ar gyfer agweddau sy’n gyfarwydd iddynt, h.y. materion sy’n effeithio ar bobl ifanc.”

Cyflawni

Enillwyd **3,932**
o gymwysterau neu ddyfarniadau
amgylcheddol



Dyfarniadau John Muir oedd
1,239 o'r rhain



Mae **758** o bobl ifanc wedi
mynd ymlaen i interniaethau,
profiad gwaith, prentisiaethau neu
gyflogaeth



Mae **214** o brosiectau
entrepreneuraidd (busnesau a mentrau)
wedi'u sefydlu gan bobl ifanc



Gwerthuso

Un agwedd allweddol ar raglen Our Bright Future yw'r gwerthusiad allanol parhaus a ddechreuodd ym mis Awst 2016 ac sy'n cael ei gynnal gan ERS a Collingwood Environmental Planning. Mae gwerthusiad y rhaglen yn ceisio nodi, dadansoddi ac asesu'r canlynol:


- Effaith gyfunol y 31 prosiect
- Gwerth ychwanegol y rhaglen h.y. yr hyn sydd wedi deillio o ddod â 31 o brosiectau at ei gilydd o dan ymbarél Our Bright Future
- A yw'r rhaglen wedi cyflawni ei huchelgeisiau hirdymor; a
- Tystiolaeth i ddangos effeithiau, arfer da a gwersi a ddysgwyd i gefnogi dysgu a gwella'r rhaglen, ac fel sail i bolisi ac arferion ehangach.

Er mwyn darparu tystiolaeth i wella effeithiolrwydd y rhaglen dros amser, mae ein gwerthuswyr yn casglu data ac yn rhannu canfyddiadau'n barhaus. Mae'r dulliau o gasglu data'n cynnwys casglu data sylfaenol ac eilaidd.

Cafodd y canfyddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon eu cynnwys yn yr adroddiad gwerthuso canol tymor a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019. Diben yr adroddiad canol tymor oedd nodi'r hyn oedd wedi'i gyflawni ers dechrau'r rhaglen a nodi gwersi allweddol i ysgogi gwell perfformiad. Bwriad yr adroddiad oedd hyrwyddo dysgu a chefnogi'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen yn y dyfodol, yn ogystal â chaniatáu i'r rhaglen rannu canfyddiadau ag eraill. Y gobaith yw y gall y sylfaen dystiolaeth gasgliadol fod yn sail i raglenni tebyg yn y dyfodol a darparu tystiolaeth o sut gall pobl ifanc wella eu hamgylchedd lleol, y gellir ei defnyddio fel sail i bolisi ac arferion ehangach.



Mae copi o'r adroddiad gwerthuso canol tymor ar gael ar wefan ourbrightfuture.co.uk/about/our-impact/





"Mae'n dda oherwydd os ydych chi'n gweld pobl ifanc eraill yn gwneud safiad, fe allwch chi feddwl, mae gen i syniadau am yr amgylchedd hefyd. (Os) gall y person yma sefyll a dweud rhywbeth, fe alla' i sefyll hefyd. Mae'n cael mwy o bobl i gymryd rhan."

Cyfweliad gyda Chyfranogwr Prosiect

Cysylltwch

- 01636 670000
- ourbrightfuture@wildlifetrusts.org
- www.ourbrightfuture.co.uk

Follow us

- @OBrightFuture
- @obrightfuture
- @obrightfuture
- Our Bright Future
- Our Bright Future